**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 21/04/2022 AM 7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID.**

1. **CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen, wrth lynnu wrth rheoliadau Covid-19 Llywodraeth Cymru.

2. **YN BRESENNOL**
Y Gyngh Clare Hughes; Y Gyngh. Mair Jones**;** Y Cyngh. Gareth Owen, Y Cyngh. Alun Price-Jones & Eleri Thomas (Clerc).

3. **CYFLWYNIAD: Taith Dyffryn Teifi**
Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Jim Cowie ynglŷn â Thaith Dyffryn Teifi, llwybr cerdded pellter hir yn ymestyn o Byllau Teifi I Draeth Poppit ac yn mynd heibio Ystrad Fflur, glan yr afon a'r rheilffordd flaenorol gan droelli drwy Tregaron, Llanddewi- brefi cyn bwrw ymlaen ymhellach I'r de.

Darperir cymorth ariannol I hyrwyddo'r fenter gan Cynnal y Cardi.
Dylunir safle ar y we a bydd App ar gael I'w lawrlwytho ar ffonau symudol.
Hybir ymgysylltiad cymunedol ac addysgir gwirfoddolwyr am ffeithiau'n ymwneud â'r daith.

**Pererin Ystrad Fflur**
Cafodd gost y Cais Cynllunio, Cyngor Sir Ceredigion ei gwrdd gan y Cyngor Cymuned. Casglwyd £10,000 drwy godi arian a chryfannodd Cronfa Henebion y Byd £7,500. Ar ôl clirio'r sail disgwylir I'r artist ddylunio ffrâm dur galfanedig. Defnyddir derw lleol. Y mae'n fwriad I ddadorchuddio'r Pererin yn yr Hydref.

**Cyflwyniad: Argyfwng Wcráin: Jasmine Wilson**
Tynnodd Jasmine Wilson sylw aelodau at y sefyllfa drychinebus yn yr Wcráin a gofynnodd tybed a fyddai'n bosibl I'r Cyngor Cymuned I arwain y gymuned wrth drefnu gweithgaredd codi arian.

Meddylir mai mis Medi fyddai'r mis mwyaf addas I gynnal y gweithgaredd codi arian. Cytunwyd I drefnu cyfarfod agored ar gyfer Nos Iau 12fed o Fai am 7.30pm yn Neuadd Pantyfedwen. Gwahoddir cynrychiolaeth o holl sefydliadau'r pentref.

4. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans; Y Gyngh. Angharad Jones, y Cyngh Non Jones a'r Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

5. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**

**Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans** yr aelodau ar ddigwyddiadau diweddar gan sôn mai tawel bu'r misoedd diwethaf.
Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch: 0
Byrgleriaeth: 0
Difrod Troseddol: 0

Dwyn: 0
Trais / Ymsodiad: 0
Galwadau Twyll/Sgam :-Mae galwadau sgam yn dal i ddigwydd.

Roedd sgam diweddar yn yr ardal yn ymwneud â chysylltu â phobl gan gwmni a oedd yn honni mai'r Post Brenhinol oedd yn cysylltu â hwynt ac yn sôn na fu'n bosibl iddynt ddosbarthu parsel ac yn eu cyfeirio at ddolen ble anogir yr unigolyn I fewnbynnu manylion personol a cherdyn banc a hawlir taliad am adbrynu.

**6. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
Dim.

**7. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 17eg o Fawrth 2022**
**CYNIGIWYD** (y Cyngh. Clare Hughes), **Eiliwyd** (y Cyngh. Alun Price Jones) a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod yr 17eg o Fawrth 2022, yn gywir.
**Arwyddwyd gan y Cadeirydd.**

**8. MATERION YN CODI**

**8.1** **Ffens y Parc (rhwng y parc a'r cae pêl droed – uchder 1m):** Cysylltwyd â'r Clwb Pêl Droed i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol am y ffens a tybed a oedd angen iddo fod mewn lle. ***Disgwylir ymateb i'r llythyr.***

**8.2** **Materion Traffig yn y pentref gyferbyn â Bryn Bannon**: i hysbysu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

**8.3** **Adroddwyd i Gyngor Sir Ceredigion ar ôl cyfarfod cynt** bod angen tocio coed yn agos at Dyllyn, Ffair Rhos. Cytunwyd i ofyn i berchennog Tyllyn a fyddai'n bosibl iddi docio/torri coed ei heiddo sy'n hongian dros y ffordd. Derbyniwyd ymateb gan berchennog Tyllyn yn gofyn am fanylion pellach. Cytunodd y Cyngh. Gareth Owen I ymweld â Tyllyn I drafod y mater ymhellach.

**8.4** **Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi y Frenhines Elisabeth 11**: Dydd Gwener 3ydd Mehefin 2022. Ceiswyd a derbyniwyd grant Loteri Genedlaethol o £3,000 dan law'r Gyngh. Clare Hughes a Mrs Lisa Owen ar gyfer prynu rhubanau, cadachau bwrdd, baneri, mygiau, llogi castell neidio, seddi metel £2 x 200.
**I archebu 150 o fygiau, 110 ar gyfer yr Ysgol Feithrin a'r Ysgol**; aelodau pellach y gymuned I dalu.

**8.5** **Torri Gwair yn y pentref dros fisoedd yr haf:** Gwobrwywyd y cytundeb I Mr D Benjamin £1,840 + TAW.

**8.6** **Canlyniad Etholiad Di-wrthwynebiad y Cyngor Cymuned**
**Ward Caron Uwch Clawdd:** Mel Briant; Alun Jones; Angharad Jones; Non Jones; Richard Jones.

**Ward Gwnnws Uchaf:** Roland Bago, Ieuan Davies; Gareth Owen, Doug Rowbotham, Elgan Williams.
**Gellir dilyn y dolenni:**

76-ystrad-fflur-caron-uwch-clawdd-cmty-u.pdf (wordpress.com)
77-ystrad-fflur-gwnnws-uchaf-cmty-u.pdf (wordpress.com)

**8.7** **Dywedodd y Cyng Wil Lewis fod angen carthu'r Afon Teifi;** roedd dŵr yn aml yn cronni yng nghyffiniau'r Llew Coch. Adroddwyd y mater at sylw Cyfoeth Naturiol

Cymru a oedd angen gwybodaeth pellach. Cytunwyd I adrodd y mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion and gofyn tybed a fyddai'n bosibl I lanhau'r draeniau.

## 9 GOHEBIAETH

**9.1 Llythyr oddi wrth Ieuan Wyn,** Cadeirydd Cylch yr Iaith yn ceisio cefnogaeth y Cyngor Cymuned I warchod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol drwy ofyn I Weinidog y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Jeremy Miles I gyflwyno gwarchodaeth statudol I rwystro disodli enwau lleoedd tirweddol Cymraeg ac enwau tai Cymraeg gan enwau Saesneg. Cytunwyd I gefnogi'r cais.

**9.2 Arolwg Ardal Chwarae ROSPA:** I gymryd lle yn ystod Mehefin 2022 am bris o £70.:

**9.3 Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Hywel Dda:** Cylchlythyr Diweddar CIC Hywel Dda: yn gofyn pe gall y Cyngor Cymuned ei rannu â grwpiau rhwydweithio ac ar y safle ar y we a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

I ddarganfod mwy am waith CIC a sut yr ydynt yn gweithio ar ran y cyhoedd gellir eu dilyn ar Drydar, Facebook a'u gwefan i gael copïau o'u hadroddiadau ymweld, arolygon, cofnodion cyfarfodydd pwyllgor a mwy!

**Dolen i'r cylchlythyr:**

Briffiau/Cylchlythyron - Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda (gig.cymru)

**Dolen i'r arolygon cyfredol:** https://hywelddacic.gig.cymru/cymryd-rhan/arolygon-byw/

**Ffôn: 01646 697610**

**Gwefan:** www.hywelddacic.cymru / www.hywelddachc.wales

**Trydar: @CicHywelDda / @HywelDdaCHC**

**Facebook: @CicHywelDda/@HywelDdaCHC**

**9.4 Gohebiaeth Pellach**: er gwybodaeth yn unig.

## 10. CYLLID

**10.1 Archwilio Cyfrifon 2021:** Gwybodaeth ynghylch Archwiliad Allanol Statudol. Gwnaeth y Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r Ffurflen Flynyddol yn ystod y cyfarfod Mehefin 2022 a'r Cyngor ei chymeradwyo. Gellir dod o hyd i sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned @ 31.03.2021 ar y safle ar y we: Blwyddyn Ariannol – Fiscal Year 2019-2020; 2020-21 | Cyngor Cymuned – Ystrad Fflur – Community Council (ccystradfflurcc.org.uk)
Adroddodd Panel Archwilio Cymru bod oedi yn amser prosesu'r Archwiliad Allanol eleni 2020-21.
Cymeradwywyd yr Archwiliad Allanol 2020-21 gan Banel Archwilio Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth ynghylch Archwiliad Allanol 2021-22 gan Banel Archwilio Cymru.

**10.2 Cyflog y Clerc: Ebrill 2022:** £193.83

**10.3 Grant y Loteri Genedlaethol ar gyfer Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi Elisabeth 11:** Adroddodd y Gyngh. Clare Hughes y byddai angen arian I brynu eitemau ar gyfer JiwbilÎ Blatinwm Ei Mawrhydi Elisabeth 11. Rhaid cadw pob anfoneb.

**11. CEISIADAU CYNLLUNIO**
Dim.

**12. UFA**

**12.1 Cinio Blynyddol:** I'w gynnal ar Nos Wener 13eg o Fai 2022 yn y Llew Coch am 7pm. Estynnir gwahoddiad I'r weinyddiaeth flaenorol.

**12.2 Casglu Sbwriel:** Dydd Mawrth 26ain Ebrill 2022 am 5pm.

**12.3 Oak Street, Pontehydfendigaid: cŵn yn baeddu.** Cytunwyd I brynu 4 poster metel dan law'r Gyngh. Clare Hughes.

**12.4 Diolchodd y Gyngh Mair Jones** aelodau a chlerc y Cyngor Cymuned am yr amser difyr a phleserus y dreuliodd fel cynghorydd. Yn ogystal, dyma gyfarfod olaf y Gyngh Clare Hughes, John Jones a Wil Lewis. Diolchwyd iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr dros ystod eang o flynyddoedd. Yn sicr bydd bwlch ar eu hôl.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm.**

**13. DYDDIAD Y CYFARFOD/ YDD NESAF**
**Nos Iau 19eg o Fai 2022 @ 7.00pm: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; Cyfarfod Misol I ddilyn.**
**Lleoliad**: Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru parthed Covid-19.

===================================================== (Arwyddwyd / Dyddiad)